WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adborth ar yr Adolygiad Rheoli Gwybodaeth

# **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**Blwyddyn archwilio:** Asesiad Gwella Blynyddol 2011

**Cyhoeddwyd:** Medi 2011

**Cyfeirnod y ddogfen:** 488A2011

# Statws yr adroddiad

Jeremy Evans oedd yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiadau o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Adroddiad cryno

**1.** Ceir pryderon ynglŷn â rheoli gwybodaeth a chofnodion ac ansawdd gwybodaeth a chofnodion o fewn y sector cyhoeddus yn dilyn methiannau a gafodd gyhoeddusrwydd eang, a chanfyddiad bod prosesau rheoli gwybodaeth aneffeithlon yn llesteirio gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae adroddiadau a gomisiynwyd gan y Llywodraeth megis *Adroddiad Bichard*[1] wedi nodi methiannau systemataidd a chorfforaethol' yn ymwneud â rheoli gwybodaeth.

**2.** Yn fwy diweddar, mae dau adroddiad[2] gan y Comisiwn Archwilio yn dangos na wnaed fawr ddim cynnydd ym maes llywodraeth leol yn Lloegr ac yn atgyfnerthu'r angen am wybodaeth a reolir yn briodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gweithredol a gwneud penderfyniadau mewn modd effeithiol.

**3.** Gyda phwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus mae angen cadw mwy o wybodaeth a gwneud y mwyaf ohoni er mwyn darparu a chynllunio gwasanaethau yn effeithiol, gan wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael i gefnogi a diogelu pobl sy'n agored i niwed.

**4.** Yn 2010 nododd Swyddfa Archwilio Cymru drwy ei gwaith Asesu Gwella fod llawer o awdurdodau yn ceisio defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i helpu i drawsnewid gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd; o ganlyniad, cynhelir adolygiadau o'r trefniadau rheoli gwybodaeth ym mhob awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

**5.** Nod yr adolygiad hwn oedd ateb y cwestiwn:

'A yw dull Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant mewn ffordd gadarnhaol?'

**6.** Daeth ein hadolygiad o'r Awdurdod i'r casgliad canlynol:

'Mae dull yr awdurdod o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant ac, ar y cyfan, mae'n ymwybodol o'r materion y mae angen iddo fynd i'r afael â hwy, ond ceir rhai gwendidau o ran trefniadau llywodraethu sy'n peri risg i'r Awdurdod.'

Amlinellir ein canfyddiadau, ein casgliadau a'n cynigion ar gyfer gwella yn y tabl isod.

---

[1] *The Bichard Inquiry Report*, Cyhoeddiad Seneddol Mehefin 2004

[2] Y Comisiwn Archwilio, *Is there something I should know?* 2009 a'r Comisiwn Archwilio, *Nothing but the Truth*, 2009

| Cwestiwn lefel uchel | A yw dull yr Awdurdod o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwella mewn modd cadarnhaol? |
|---|---|
| **Ateb lefel uchel:**<br>**Daethom i'r casgliad canlynol:** | Mae dull yr Awdurdod o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant ac, ar y cyfan, mae'n ymwybodol o'r materion y mae angen iddo fynd i'r afael â hwy, ond ceir rhai gwendidau o ran llywodraethu a pherfformiad sy'n peri risg i'r Awdurdod. |
| **Asesiad o'r trefniadau presennol** | '**Rhai pryderon**' - Ceir gwendidau mewn trefniadau y mae angen mynd i'r afael â hwy, ond mae agweddau eraill ar y trefniadau yn dderbyniol gydag arwyddion o wella. |
| **Asesiad o berfformiad** | '**Rhagweithiol**' – Mae perfformiad yn gadarn ar y cyfan. Ceir lle i wella ond mae'r gwelliannau hyn naill ai eisoes ar waith neu nid ydynt yn ddigon pwysig i orfod gweithredu arnynt ar frys. |
| **Cynigion ar gyfer gwella** | 1. Dylai'r Awdurdod ddiwygio'r Strategaeth TGCh/Gwybodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu mentrau cenedlaethol a lleol cyfoes, gan sicrhau y rhoddir sylw cynhwysfawr i faterion rheoli gwybodaeth.<br>2. Sefydlu Fforwm Diogelwch Gwybodaeth, wedi'i gadeirio gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth neu gan sicrhau ei fod yn bresennol,<br>sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sydd â chyfrifoldeb corfforaethol am faterion yn ymwneud â gwybodaeth, yn enwedig:<br>• sefydlu safonau a pholisïau;<br>• monitro cydymffurfiaeth â safonau a pholisi;<br>• hyfforddiant rheoli gwybodaeth;<br>• dysgu o ddigwyddiadau a materion gwybodaeth a mynd i'r afael â'r digwyddiadau a'r materion hynny;<br>• rheoli risgiau gwybodaeth.<br>3. Datblygu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer yr holl staff er mwyn sicrhau y gall yr Awdurdod ddangos bod cyfrifoldeb am faterion gwybodaeth wedi'i raeadru drwy bob rhan o'r Awdurdod.<br>4. Mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan adolygiad diweddar y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o drefniadau diogelwch TG; mae'r adolygiad hwn yn cefnogi'r argymhellion hyn yn llawn.<br>5. Sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer rheoli cylch oes cyfan gwybodaeth electronig yn cynnwys negeseuon e-bost. |

| Cwestiwn lefel uchel | A yw dull yr Awdurdod o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwella mewn modd cadarnhaol? |
|---|---|
| **Cynigion ar gyfer gwella** | 6. Sicrhau bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth weinyddol yn unol â'r trefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth weithredol.<br>7. Sicrhau y cedwir data digonol y tu hwnt i'r terfyn naw milltir a argymhellir fel y gellir adfer gwybodaeth y gwasanaeth yn llawn os ceir trychineb. |

| Canfyddiadau | Ateb | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A yw cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer rheoli gwybodaeth yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?** | Yn rhannol | • Nid oes strategaeth wybodaeth gyffredinol ar waith. Fodd bynnag ceir Strategaeth TGCh sy'n ddyddiedig Mawrth 2007. Mae'r Strategaeth TGCh yn cwmpasu nifer o fentrau gwybodaeth allweddol, megis diogelwch, rheoli dogfennau a rheoli cydberthnasau â chwsmeriaid ond mae angen ailwampio'r ddogfen hon er mwyn adlewyrchu'r dyheadau a'r cyfeiriad cenedlaethol a lleol presennol ac ymdrin â'r tymor canolig a'r tymor hwy.<br>• Mae egwyddor 4 o god llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod yn cynnwys yr angen am 'wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu yn effeithiol a'u bod yn diwallu anghenion y gymuned'. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynlluniau manwl sydd â'r nod penodol o gyflawni'r egwyddor hon.<br>• Mae amryw o bolisïau a chanllawiau - Gorchymyn Polisi a Gweithdrefn Gweinyddol Gwasanaeth - ar waith. Caiff polisïau eu datblygu i ddiwallu angen ac maent yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r agweddau ar reoli gwybodaeth.<br>Mae pob polisi sydd ar waith wedi'i gymeradwyo.<br>• Nid oes unrhyw gynlluniau'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar reoli gwybodaeth nac unrhyw gynlluniau cyffredinol sy'n ymdrin â'r maes. Caiff materion penodol sy'n ymwneud â gwybodaeth eu hymgorffori o fewn cynlluniau'r prosiectau unigol, er enghraifft y rheini sy'n ymwneud â'r System Rheoli Cofnodion Tân (RMS).<br>• Mae hyfforddiant cyfyngedig ar gael i staff ar faterion rheoli gwybodaeth. |

| Canfyddiadau | Ateb | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A yw trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli gwybodaeth yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?** | Yn rhannol | • Nid oes unrhyw swyddi rheoli gwybodaeth penodedig ffurfiol, ond mae'r swyddogaethau wedi'u cynnwys yn rolau swyddogion. Y Dirprwy Prif Swyddog Tân oedd yn cyflawni dyletswyddau'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth tra roedd yr Awdurdod wrthi'n creu ei gyflwyniad ar gyfer y cod cysylltu. Ailgadarnhawyd mai'r Dirprwy Prif Swyddog Tân fyddai'n cyflawni cyfrifoldebau'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ym mis Mai 2011.<br>• Caiff y Grŵp Llywio Gwybodaeth ei gadeirio gan Brif Swyddog Tân Cynorthwyol ac mae aelodaeth y grŵp yn sicrhau y cynrychiolir pob agwedd ar y gwasanaeth. Mae'r Grŵp Llywio Gwybodaeth yn canolbwyntio ar lywodraethu prosiectau yn bennaf.<br>• Mae'r adran TGCh yn datblygu, yn gweithredu ac yn monitro polisi a chanllawiau; gallai hyn arwain at wrthdaro buddiannau posibl.<br>• Roedd gan y ddau uwch swyddog (prif swyddogion tân cynorthwyol) y cyfwelwyd â hwy yn ystod yr adolygiad hwn ddealltwriaeth glir o faterion rheoli gan fod y materion hynny'n effeithio ar eu hadrannau. Tybir bod materion rheoli gwybodaeth yn flaenoriaeth isel ar hyn o bryd (oherwydd yr hinsawdd economaidd ac ati) ac felly ni chynhaliwyd adolygiad cyffredinol o faterion gwybodaeth. Felly mae'n bosibl nad yw'r Awdurdod yn ymwybodol o fygythiadau a chyfleoedd.<br>• Mae'r Awdurdod yn canolbwyntio ar risgiau gweithredol sy'n hyrwyddo pwysigrwydd rheoli gwybodaeth ac yn dangos dealltwriaeth fod gwybodaeth yn allweddol er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol. Fodd bynnag, oherwydd y rhoddwyd mwy o ffocws i wybodaeth weithredol na gwybodaeth weinyddol, mae angen cysoni'r trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth weinyddol â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer gwybodaeth weithredol.<br>• Mae cofrestr risgiau corfforaethol ar waith. Mae'r wybodaeth bersonol gyfyngedig a gedwir gan yr Awdurdod yn annog y farn bod materion gwybodaeth megis niwed i enw da'r Awdurdod yn sgîl colli gwybodaeth bersonol yn cael eu rheoli'n ddigonol a'u bod yn cynrychioli risg isel. (Nodyn - nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys gwybodaeth weithredol na risgiau gweithredol). Fodd bynnag ceir angen, fel y nodwyd uchod, i gysoni trefniadau llywodraethu gwybodaeth weinyddol â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer gwybodaeth weithredol.<br>• Caiff prosiectau eu rheoli gan ddefnyddio modelau rheoli prosiect cydnabyddedig a chânt eu herio gan y Grŵp Llywio TGCh. Mae cynlluniau prosiectau yn gadarn ac mae gan yr Awdurdod hanes o'u cyflawni'n effeithiol, er enghraifft yr RMS Tân. |

| Canfyddiadau | Ateb | Oherwydd: |
| --- | --- | --- |
| **A yw perfformiad yr Awdurdod o ran rheoli gwybodaeth yn ei helpu i ddarparu gwasanaethau effeithlon, effeithiol a darbodus?** | Yn rhannol | • Mae'r Awdurdod yn defnyddio strwythur ffeiliau math Windows Explorer nad yw wedi'i reoli na'i strwythuro'n effeithiol. Rheolir mynediad i'r gyriant a rennir gan grwpio defnyddwyr fesul unigolion, swyddogaethau, adrannau a'r Awdurdod.<br>• Mae'r Awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o un rhestr, a ddefnyddir yn y system gorchymyn a rheoli, sy'n enghraifft o arfer da.<br>• Mae prosesau ansawdd data, er enghraifft yr RMS Tân, yn gymwys i systemau allweddol.<br>• Mae'r Polisi Cadw Data yn rhestru'r data a gedwir ar hyn o bryd (Gorffennaf 2010). Lluniwyd y polisi cadw ar ôl gofyn i adrannau restru'r wybodaeth oedd ganddynt. Fodd bynnag, mae adrannau unigol yn gyfrifol am archifo a gwaredu gwybodaeth yn unol â'r Polisi Cadw Data, ond ni chaiff cydymffurfiaeth â'r cyfrifoldebau hyn ei monitro ac mae'n debyg mai swm bach iawn o wybodaeth electronig, os o gwbl, a gaiff ei ddileu. Mae'r cynnydd blynyddol yn y data sydd ar gael yn ategu'r farn hon.<br>• Mae rhoi gwybodaeth i ddiffoddwyr tân gweithredol yn fater allweddol ac mae gwybodaeth am ddiogelwch tân a diogelwch cymunedol ar gael gan ddefnyddio model effeithiol sy'n addas i'r rhanbarth daearyddol a'i seilwaith.<br>• Nid oes gan yr Awdurdod swyddog diogelwch gwybodaeth penodol. Fodd bynnag, roedd adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Ddiogelwch TG yn gadarnhaol ar y cyfan. Cefnogwn argymhelliad yr adroddiad mai un swyddog ddylai fod yn gyfrifol am ddiogelwch gwybodaeth. Mae gan yr Awdurdod amrywiaeth o fesurau diogelwch ar waith megis rheolaethau cyfrineiriau a cheir Polisi Diogelwch TG. Mae contractau cyflogaeth yn cynnwys yr angen i fod yn ymwybodol o wybodaeth y sefydliad o ran y defnydd a wneir ohoni a'i diogelwch.<br>• Mae'r Awdurdod wedi llofnodi protocolau rhannu data ag amrywiaeth o sefydliadau partner (cynghorau lleol, yr heddlu, y bwrdd iechyd, y gwasanaeth ambiwlans ac ati) ac mae'n derbyn gwybodaeth yn ogystal â'i rhannu o fewn y grŵp hwn. Rhennir data gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sydd ar gael gan gynnwys dulliau electronig a phapur yn ogystal ag ar dafod leferydd. |

| Canfyddiadau | Ateb | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A yw perfformiad yr Awdurdod o ran rheoli gwybodaeth yn ei helpu i ddarparu gwasanaethau effeithlon, effeithiol a darbodus?** | Yn rhannol | • Mae prosesau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes cyfredol ar waith; ymhlith y rhain mae dulliau 'auto failover' sydd ar waith ond mewn dwy swyddfa ar yr un safle. Bydd PSBA yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran dewis lleoliad oddi ar y safle a thrwy achub ar y cyfleuster hwn gellir datrys cyfyngiadau presennol yn hyn o beth. Ni chyflawnir yr argymhelliad y dylid cadw tapiau oddi ar y safle y tu hwnt i derfyn o naw milltir (Y Rhyl, saith milltir), er y cydnabyddir bod rhai tapiau 15 milltir i ffwrdd ond nid yw'n glir a fyddai'r rhain yn ddigon i allu ailadeiladu'r system yn gyfan gwbl. Mae'r adran TGCh yn profi'r trefniadau ar gyfer parhad busnes. Mae'r gwersi a ddysgwyd yn sgîl yr ymarferion hyn ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i addasu'r gwasanaeth TGCh yn ystod cyfnodau o absenoldeb staff oherwydd y tywydd a salwch wedi ei gwneud yn bosibl ymdrin â pharhad busnes mewn modd cadarn, er enghraifft, gellir darparu gwasanaethau'r ddesg gymorth TGCh o leoliadau amgen neu drwy weithio gartref.<br>• Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae ganddo gynlluniau cyhoeddi priodol ar waith. Mae'r Awdurdod yn cyflawni'r amseroedd ymateb disgwyliedig ar gyfer ceisiadau gwrthrych am wybodaeth a rhyddid gwybodaeth. |
| **A yw'r Awdurdod yn monitro ac yn gwerthuso gwelliant a pherfformiad yn effeithiol?** | Ydy | • Er bod gan yr Awdurdod nifer o fesurau perfformiad gweithredol ar waith nid oes unrhyw fesurau penodol i asesu perfformiad rheoli gwybodaeth.<br>• Mae staff yr ystafell reoli yn cofnodi data manwl ar ddigwyddiadau ar y System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y gellir ei gweithredu ar y we ac fe'i dadansoddir gan y Dadansoddwr Perfformiad a'i gyflwyno i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (CLG). Cofnodir data ar Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref (HFSC) a data diogelwch/atal tân ar yr RMS Tân gan staff perthnasol ac adolygir y wybodaeth gan Weinyddwr yr RMS Tân. Bydd y Dadansoddwr Perfformiad yn llunio ac yn cyflwyno adroddiadau i reolwyr fel y bo angen. Er enghraifft, caiff papurau eu llunio a'u darparu ar gais i bwyllgorau a grwpiau ar lefel adrannol a lefel yr Awdurdod ee, cyfarfodydd y Grŵp Gweithredol, Gweithgor Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod Tân a'r Panel Gweithredol. Ymhlith yr adroddiadau mae data perfformiad allweddol ar ffurf adroddiadau monitro rheolaidd a chyflwyniad blynyddol o DPau a ffurflenni blynyddol blynyddoedd blaenorol. |

| Canfyddiadau | Ateb | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A yw'r Awdurdod yn monitro ac yn gwerthuso gwelliant a pherfformiad yn effeithiol?** | Ydy | • Defnyddir gwybodaeth gan grwpiau proffesiynol a thechnegol ee, grwpiau penodol Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, yng Nghymru ac ar lefel y DU, drwy gydweithredu rhwng y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru; dadfriffiadau digwyddiadau rhyngasiantaethol, ymarferion ac archwiliadau mewnol/allanol. Fel rhan o brosesau Sicrwydd Gweithredol Darparu Gwasanaethau cynhelir hunanasesiad blynyddol ac asesiadau cilyddol gan gymheiriaid â'r ddau awdurdod arall yng Nghymru (a arsylwir gan Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru). Gwneir cymariaethau ag awdurdodau tân ac achub eraill ar sail y data a gyhoeddwyd ee, wrth lunio cynlluniau gwella a lleihau risg.<br>• Nid oes gan yr Awdurdod gymeradwyaeth Cod Cysylltu GCSX ar hyn o bryd. Fe'i cyflwynwyd ddiwedd mis Gorffennaf 2011 ac ni wyddys y canlyniad eto. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod ddwy gymeradwyaeth 'Cod Cysylltu Gwasanaeth Airwave' ar gyfer cysylltu gwahanol systemau ag Airwave.<br>• Ceir rhywfaint o gydymffurfiaeth ag ISO27001, er enghraifft mae'r ISG yn gweithredu fel y Fforwm Rheoli Diogelwch Gwybodaeth, er mai prif ffocws yr ISG yw rheoli prosiectau.<br>• Cynhaliwyd archwiliadau diogelu data a rhyddid gwybodaeth yn ddiweddar gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol; mae'r Awdurdod wedi mynd ati i ymdrin â'r argymhellion. Mae Diogelwch TG wedi cael ei archwilio gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ddiweddar. Ar ffurf ddrafft y mae'r adroddiad ar hyn o bryd ond deellir ei fod yn dod i'r casgliad fod Diogelwch TG yn gweithio'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag mae angen mynd i'r afael ag ambell wendid. Mae a wnelo'r rhain â rheoli mynediad, dogfennu, a gwaredu gyriannau caled llungopïwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r ffaith nad oes Swyddog Diogelwch TG. |